TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Hyfforddiant Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1



**Yn gryno**

Mae'r cwrs ymarferol a damcaniaethol hwn yn ddelfrydol ar gyfer gwella eich gwybodaeth am ofalu am geffylau ac agweddau eraill ar y diwydiant ceffylau, gan eich paratoi ar gyfer cymhwyster Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Y rhai sy'n dymuno symud ymlaen trwy lwybrau cymwysterau Cymdeithas Ceffylau Prydain.

... Perchnogion ceffylau angerddol sy'n dymuno datblygu eu sgiliau.

... Unrhyw un sy'n dymuno hyfforddi ar gyfer asesiad Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1.

... Y rhai sy'n ystyried neu sy'n dymuno dechrau gyrfa yn y diwydiant ceffylau.

**Cynnwys y cwrs**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Yn ystod y cwrs hwn, byddwch chi'n defnyddio'r cyfleusterau gwych yng Nghanolfan Geffylau Brynbuga sy'n ganolfan arholiadau a gymeradwywyd gan Gymdeithas Ceffylau Prydain.

Mae pob sesiwn yn cynnwys gwers marchogaeth sy'n trafod:

Safle marchogaeth sylfaenol
Symudiadau ysgol farchnogaeth sef cerdded, trotian a charlamu
Marchogaeth heb wartholion
Gweithio mewn sedd ysgafn

Gwaith polion Gofal sylfaenol ar gyfer ceffylau, gan gynnwys:

Sgiliau trin
Iechyd ceffylau
Bwydo
Rheolaeth stablau sylfaenol

Bydd angen i chi ddarparu eich het farchogaeth eich hun sy'n bodloni gofynion diogelwch presennol Cymdeithas Ceffylau Prydain, jodhpurs, ac esgidiau marchogaeth. Er nad oes cymhwyster ffurfiol, bydd y cwrs yn eich paratoi ar gyfer asesiad Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1 ac, ar ôl hynny, bydd modd i chi symud ymlaen i gwrs hyfforddiant Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 2.

**Gofynion Mynediad**

Er nad oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn, dylech chi feddu ar sgiliau marchogaeth digonol, gan gynnwys gallu cerdded, trotion a charlamu yn annibynnol.

Dylai dysgwyr fod o leiaf 19 oed a disgwylir iddynt fynd i asesiad marchogaeth cyn dechrau'r cwrs.

Sylwer – i sicrhau lles ein ceffylau, mae ein canolfan geffylau yn gweithredu uchafswm terfyn pwysau o 14 stôn. Gall pob ymgeisydd astudio ar opsiwn marchogaeth neu heb farchogaeth ar bob un o'n cyrsiau ceffylau felly ni fydd lle ar y cwrs yn cael ei wrthod.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cyflwynir y cwrs hwn gan un o'n hyfforddwyr cymwysedig Cymdeithas Ceffylau Prydain a chaiff ei gynnal gyda'r hwyr.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd angen het farchogaeth sy'n ffitio'n gywir ac amddiffynydd corff sy'n bodloni gofynion diogelwch presennol, esgidiau marchogaeth, jodhpurs, menig a chwip arnoch chi. Sylwer bod y cwrs hwn wedi'i ddylunio i baratoi dysgwyr ar gyfer cymhwyster Cymdeithas Ceffylau Prydain Cyfnod 1, fodd bynnag, nid yw'r cwrs hwn yn cynnwys yr asesiad ffurfiol.

Gall asesu ar gyfer y cymhwyster hwn gael ei drefnu yn y ganolfan hon am gost ychwanegol.